**CYNGOR BRO PONTARFYNACH COMMUNITY COUNCIL**

**Nos Iau 5ed Mawrth 2020 am 7.30 y.h.**

**Thursday 5th March, 2020 at 7.30 p.m.**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:
Meeting was held at Mynach School with the following present:

Gareth Jones (yn y Gadair/In the Chair);
Brython Davies, Robert Davies, Eluned Evans, Phil Lloyd. Robert Pratt.

Cynghorydd Sir/County Councillor Rhodri Davies.

**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**

Jane Hopkins, Rhodri Jenkins

**1. MATERION PERSONOL**

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddatgan buddiant os bydd sefyllfa'n codi.

**3. COFNODION**

**Cyfarfod ar 13th Chwefror, 2020**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod heblaw am newid Clwb Pêl Droed Trisant i Glwb Ffermwyr Ifainc Trisant yn y Gymraeg (Cof 6(b). Cynigiwyd gan E. Evans ac eiliwyd gan Ph. Lloyd.

**4. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

(a) Yn dilyn o’r rhestr a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol y Clerc i gadw llygad ar y materion sydd heb eu gwneud gan drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

(b) Adroddwyd bod draeniau a ffosydd yng Nghwmystwyth wedi cael eu glanhau.

(c) Cyfeiriodd R. Pratt ei fod wedi mynychu lansiad Canllaw Ardal Pentir Pumlumon ar 27ain Chwefror.

**5. CYLLID**

(a) Cytunodd y Cyngor Bro i ofyn i Ms Gill Styles i ymgymryd a chwblhau awdit mewnol ar gyfrifon y Cyngor Bro. Y Clerc i baratoi llythyr o’r anghenion i Ms. Styles.

**1. PERSONAL MATTERS**

**2. DECLARATION OF INTEREST**

Members were reminded of the need to declare an interest if a situation arises.

**3. MINUTES**

**Meeting of 13th February, 2020**

The minutes were confirmed as a true record of the meeting, but with a slight amendment in Welsh to read Trisant YFC instead of Trisant Foodball Club (min 6(b), which was proposed by E. Evans and seconded by Ph. Lloyd.

**4. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES**

(a) Following on from the list presented at the last meeting of work outstanding the Clerk to monitor the situation with further discussions at the next meeting.

(b) Blocked drains and ditches at Cwmystwyth have been cleaned and cleared of blockages.

(c) R. Pratt had attended the Pentir Pumlumon Area Guide Launch Event on 27th February.

**5. FINANCE**

(a) The Community Council resolved to ask Ms Gill Styles to undertake an Internal Audit of the Community Council Accounts. The Clerk to issue Ms Styles with a letter of the requirements.

(b) Ystyried llythyr yn ymholi am nawdd ariannol wrth Dr. Axford ar ran HAVAV (Hosbis yn y Cartref Gwirfoddolwyr Gweithredol). Cytunwyd i gyfrannau £100.00. Cynigiwyd y taliad gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan R. Pratt.
(c) Anfoneb wrth Un Llais Cymru am £81.00 tal aelodaeth 2020/21. Cytunwyd i dalu'r anfoneb gan barhâi i'r Cyngor Bro fod yn aelod o Un Llais Cymru. Cynigiwyd y taliad gan Ph. Lloyd ac eiliwyd gan B. Pratt.
(d) Cyflog a chostau'r Clerc. Penderfynwyd talu'r Clerc £560.00 cyflog a £44.74 costau o 1af Medi, 2019 i 31ain Mawrth, 2020 gyda £140.00 i HMRC ar gyfer PAYE y Clerc. Cynigiwyd y taliadau gan R. Davies ac eiliwyd gan B. Davies
(e) Er i'r Clerc gyflwyno mantolenni ariannol rheolaidd i'r Cynghorwyr ni chofnodwyd y derbyniadau canlynol yn ffurfiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20:

- Llog banc: £11.96 hyd yn hyn.
- Derbyniwyd dyraniad praesept mewn tri swm gwahanol Ebrill, Gorffennaf a Hydref 2019, cyfanswm o £3,500.
- Taliad Ailgylchu Gwydr Derbyniwyd 42.80 (£ 29.50 Chwarter 1 2019/20 a £ 13.30 Chwarter 2 2019/20)

(b) To consider a letter from Dr. Axford on behalf of HAVAV (Hospice at Home of Active Volunteers) asking for a donation. It was agreed to donate £100.00. Payment proposed by Ph. Lloyd and seconded by R. Pratt.
(c) Invoice from One Voice Wales for £81.00 for 2020/21 membership fee. It was agreed to pay the invoice for the Community Council to continue to be a member of One Voice Wales. Payment proposed by Ph. Lloyd and seconded by B. Pratt.
(d) Clerk's Salary and Expenses: It was resolved to pay the clerk £560.00 salary and £44.74 expenses from 1st September 2019 to 31st Mawrth, 2020 and £140.00 to HMRC for the Clerk's PAYE. The payment was proposed by R. Davies and seconded by B. Davies.
(e) Although the Clerk had been presenting to the Councillors regular financial balance sheets the following receipts were not formally recorded for the 2019/20 financial year:

- Bank interest: £ 11.96 to date.
- Precept allocation had been received in three different amounts April, July and October 2019, totalling £ 3,500.
- Glass Re-cycling payment Received 42.80 (£29.50 Quarter 1 2019/20 and £13.30 Quarter 2 2019/20)

## 6. GOHEBIAETH

Holiadur gan Lywodraeth Cymru am rhandiroedd a llefydd gwyrdd.

## 6. CORRESPONDENCE

Survey from Welsh Government regarding allotments and green areas.

## 7. UNRHYW FATER ERAILL

(a) Adleoli bin sbwriel ym Mhentref Pontarfynach o du allan yr hen Siop wrth ymyl y Gof Golofn. Cyngor Sir Ceredigion wedi cytuno i'r Cyngor Bro adleoli, gyda threfniadau i'w gwneud i swyddog ddod i drafod y lleoliad newydd.
(b) Polyn fflag wedi lleoli wrth y Gof Golofn. Trefniadau mewn llaw i adleoli polyn fflag o du allan yr ysgol i dir yr ysgol. Ymholiadau i'w gwneud

## 7 ANY OTHER MATTER

(a) Re-locate the waste bin in Devil's Bridge Village from outside the old Shop to be sited next to the War Memorial. Ceredigion County Council has agreed for this to happen, with arrangements for an officer to come and discuss the new location.
(b) A new flag pole has been installed near the War Memorial. Arrangements in place for relocation of flag pole from near the school to

am y posibilrwydd o adleoli polyn fflag Trisant wrth y ciosg coch.

(c) Adroddwyd bod unigolion wedi dechrau cerdded ar y wal newydd o'r Orsaf Drên tuag at Westy'r Hafod. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir am arwyddion i atal hyn gan nid yn unig yn beryglus ond fe all achosi niwed i'r wal.

(d) Cyfeiriwyd at ddatblygiad newydd Fferm Wynt Lluest y Gwynt yn y cyffiniau ond cyfeiriodd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth am y datblygiad.

(e) Bydd Clwb Cerdded Pontarfynach yn trefnu taith codi sbwriel yn yr ardal cyn hir, croeso cynnes i bawb ymuno.

(f) Cyfeiriwyd at broblem o faw cŵn sy'n bodoli o amgylch yr Arch.

(g) Pryder am ddiogelwch adeilad yn Nhrisant ble roedd teils a choed yn chwythu ar y ffordd yn ystod tywydd garw.

(h) Trafodwyd grant oedd ar gael ar gyfer dodi peiriannau arian ym mhentrefi gwledig ond cytunwyd nid oedd yn ymarferol yn yr ardal ar hyn o bryd.

8. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau 2 Ebrill, 2020 yn Ysgol Mynach.

the school grounds. Inquiries to be made about the possible relocation of the Trisant flag pole to near the red kiosk.

(c) It was reported that individuals had started walking on the new wall from the Railway Station towards the Hafod Hotel. The Clerk to contact the County Council for signs to prevent this as it is not only dangerous but can cause damage to the wall.

(d) Reference was made to the new Lluest y Gwynt Wind Farm development in locality, but the Clerk referred that she had not received any information on the development.

(e) Devil's Bridge Walking Club will soon be organizing a litter pick in the area, everyone is welcome to join.

(f) Reference was made to the problem of dog fouling that exists around the Arch.

(g) Concern over the safety of a building in Trisant where tiles and wood were blowing on the road during stormy weather.

(h) A grant available for installing cash machines in rural villages was discussed but it was agreed that it was not practical in the area at present.

9. **DATE OF NEXT MEETING**

The next meeting to be held on Thursday 2nd April, 2020 at Mynach School.